**5b. Nodiadau Ymchwilydd ar gyfer Sioe Jerome Acyle**
**Rhif rhaglen 7, Darlledir am 10am**

**Emma**

Roedd pethau'n mynd yn dda i Emma hyd nes, ar ei phen-blwydd yn 13 oed, cafodd ei hudo i fyd peryglus yfed a chyffuriau gan rai bechgyn hŷn.



"Fe wnaethon nhw gwrdd â ni yn y dref. Roedd un ohonyn nhw'n adnabod fy nghefnder felly feddyliais i ddim am y peth. Fe aethon nhw a fi a'm ffrindiau gorau allan yn eu ceir a rhoi 'whizz' (amffetaminau), 'weed' a diod i ni. Yna fe ddechreuon nhw ein tecstio a dweud eu bod am i ni ddod allan gyda nhw drwy'r amser. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n lwcus oherwydd bod mam yn gweithio shifft nos ac nid oedd yn sylwi a oeddwn yn y tŷ ai peidio. Roedd hi'n well na bod yn sownd yn y tŷ ar fy mhen fy hun ac roeddwn wedi dod o hyd i gariad oedd yn dweud ei fod yn fy ngharu o ddifrif - felly byddwn yn aros allan drwy'r nos ac yn dod adref am 5am. Wn i ddim pam na ddywedais wrth mam, mae'n debyg ei fod yn gyffrous."
Beth amser yn ddiweddarach roedd Emma yn nhŷ ei chariad pan ddaeth bechgyn eraill a dynion heibio gyda diodydd a chyffuriau.

"Wn i ddim sut ddigwyddodd y peth, rwy'n credu fy mod 'allan ohoni'. Yn y diwedd roeddwn mewn ystafell ar fy mhen fy hun gydag un o'r bechgyn. 'Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod pwy oedd e. Fe wnaeth fy nhreisio ac yna daeth dynion eraill i mewn. Fe gymrodd pob un ei dro. Roeddwn i'n dwp, dyna'i gyd wnes i oedd gorwedd yno! Meddyliais am ffonio fy nghariad ond roedd ofn arna i.
Yn fy nghalon roeddwn i'n rhacs, roeddwn i'n teimlo mor wag. Yn y diwedd rhedais allan yn sgrechain am fy nghariad i'm helpu a dyna'i gyd wnaeth e oedd chwerthin. Dywedodd "Nid yw'n ddim byd. Gwna hyn i fi a'i gadw'n gyfrinach." Nid oeddwn yn deall pam y byddai'n dweud hynny. Rhedais allan o'r tŷ a chael tacsi adref. Rwy'n ei garu o hyd ac mae e'n fy ngharu i. Mae'n dweud mai oherwydd ei fod yn fy ngharu na fydd e'n dweud wrth yr heddlu am yr holl gyffuriau rydw wedi eu cymryd."

**Julie: Mam Emma**



Mae mam Emma yn fam sengl ac mae newydd wahanu â'i chariad oedd wedi bod yn byw gyda hi am 5 mis. Mae ganddi ddwy ferch Emma a phlentyn iau, Megan. Mae nawr yn gweld rhywun ond dywed nad yw'r berthynas yn un ddifrifol.

"Nid fy mai i yw hyn. Mae Emma wedi bod yn anodd erioed. Mae bob amser wedi gwthio'r ffiniau. Nid oeddwn yn gwybod am ei chariad, Ryan, ar y dechrau. Ond mae pob plentyn fel yna, onid ydyn nhw? Yn gyfrinachol am eu ffrindiau a beth sy'n digwydd. Fyddai hi byth yn gadael i mi weld ei negeseuon. Yna roedd hi bob amser yn mynd allan. Roeddwn i'n meddwl y byddai cael cariad yn beth da iddi. Roedd e'n dda i mi ac yn prynu blodau a phethau eraill. Roedd fel petai ganddo arian o hyd. Ni allwn i fod gyda hi drwy'r amser? Roedd angen i mi roi trefn ar fy mywyd fy hun. Nid yw pethau'n dda rhyngddo' i a fy nghariad ar hyn o bryd. Mae angen amser fy hun arna'i."

Zara: Ffrind Emma



"Dydw i ddim wir yn poeni beth sy'n digwydd i Emma. Roeddwn i'n gwybod amdani yn mynd allan gyda Ryan ar ôl i ni gyd fynd allan ar ei phen-blwydd yn 13 oed. Roedd honno'n noson wyllt ac nid ydw i am ddweud beth ddigwyddodd - ond ar ôl hynny roeddwn i yn llawn embaras ac ni wnes siarad â hi. Yna blinais ar decstio ac anfon negeseuon oherwydd nid oedd yn fy ateb. Dechreuodd fy anwybyddu yn yr ysgol hefyd a byddai'n mynd ffwrdd ar ei phen ei hun yn ystod egwyl ac amser cinio. Roeddwn i'n gwybod mai fi oedd ei ffrind ond all rhywun ddim goddef cael ei anwybyddu drwy'r amser! Meddyliais, os oedd hi wedi gwneud ffrindiau newydd - wel pob lwc iddyn nhw - byddai'n cefnu arnyn nhw fel roedd hi wedi troi ei chefn arna i."

Ryan: Cariad Emma



Rwy'n gwybod fy mod wedi taro ar beth da. Rwy'n cael holl fanteision cariadon ifanc (a dim ond y rhai gwyllt rwy'n eu dewis!) ac rwy'n gallu gwneud arian allan o'r peth hefyd. Mae fy mêts y cael rhannu fy lwc dda. Mae'r merched fydda i'n eu dewis fel arfer yn unig neu does ganddyn nhw ddim perthynas dda gyda'u teuluoedd neu rywbeth tebyg. Fe allech eu galw'n agored i niwed. Felly rwy'n gwneud ffafr â nhw mewn gwirionedd. Rwy'n dweud wrth bob un ohonyn nhw fy mod yn eu

caru a pha mor hardd ydyn nhw. Mae pob un ohonynt yn syrthio i'r fagl ac mae'r cyffuriau a'r diod yn gweithio i'r dim. Mae nhw'n hapus i wneud beth rydw i'n ddweud wrthyn nhw ar ôl cael ambell ffics. Mae rhai merched yn dweud nad ydyn nhw am fynd gyda fy 'mêts' ar y dechrau, ond fel arfer rwy'n eu perswadio ar ôl ychydig o ddiodydd neu os yw popeth yn methu rwy'n dweud wrthyn nhw y byddai'n dweud wrth eu rhieni neu'r heddlu am beth mae nhw wedi bod yn ei wneud - bydd hyn fel arfer yn gweithio! Mae nhw yn ei fwynhau ta beth. Mae'r partïon yn wych.